GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

In conjunction with all of the Wales Regional Safeguarding Boards

Gweithiwr allweddol: .....

Cyswllt: .....

PRUDiC

Gwybodaeth i Deuluoedd



Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys gwybodaeth i rieni a gofalwyr a'i nod yw egluro'r prosesau sy'n digwydd yn dilyn marwolaeth annisgwyl plentyn. Mae marwolaeth unrhyw blentyn yn drasiedi enfawr i'r teulu a'r gymuned ehangach, ac mae cymorth ar gael i chi. Cliciwch ar y ddolen isod i gael rhagor o wybodaeth:

icc.gig.cymru/PRUDiC

Ystyr PRUDiC yw Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaeth Annisgwyl mewn Plentyndod a dyma'r broses sy'n egluro sut mae'n rhaid i weithwyr proffesiynol yng Nghymru ymateb i farwolaeth annisgwyl plentyn, i wneud yn siŵr bod yr ymateb yn ddiogel, yn gyson ac yn sensitif i anghenion y teulu mewn profedigaeth.

Mae'n bwysig bod holl farwolaethau ymhlith plant yn cael eu hadolygu'n ofalus fel y gallwn ddysgu cymaint â phosibl, i geisio atal marwolaethau yn y dyfodol, ac i gefnogi teuluoedd, gofalwyr a ffrindiau.

Diffinnir marwolaeth annisgwyl fel un na ddisgwyliwyd o fewn y 24 awr flaenorol, neu cyn y digwyddiad a arweiniodd at y farwolaeth, er enghraifft damwain ffordd neu farwolaeth trwy hunanladdiad ac sy'n digwydd yn yr ysbyty neu allan ohono.

Beth fydd yn digwydd:

- Bydd eich plentyn yn cael ei ddwyn i'r ysbyty (oni bai ei fod eisoes yn yr ysbyty) lle bydd meddygon a'r heddlu yn gofyn rhai cwestiynau am yr hyn sydd wedi digwydd ac yn archwilio'ch plentyn.
- Bydd gweithiwr allweddol yn cael ei ddyrannu i'ch teulu ar yr adeg hon.
- Rhoddir gwybod i'r crwner am bob marwolaeth annisgwyl a fydd yn penderfynu a oes angen archwiliad post mortem a bydd yn agor cwest neu ymchwiliad.
- Mae'n bwysig nodi bod pob un o'r gweithwyr proffesiynol hyn yn ymwneud â phob marwolaeth annisgwyl plentyn yng Nghymru ac nid yw hyn yn golygu bod eich teulu'n cael ei drin yn wahanol.

Mae cyfres o gyfarfodydd PRUDiC a fydd yn cynnwys gweithwyr iechyd, yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg ac ati a byddent yn rhannu cymaint o wybodaeth â phosibl am y plentyn, ei farwolaeth, pam y digwyddodd ac unrhyw faterion a allai atal marwolaethau pellach. Rhennir gwybodaeth hefyd gyda Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant Cymru.

- Cam un (rhwng 0 i 5 diwrnod fel arfer): Cyfarfod Rhannu Gwybodaeth a Chynllunio.
- Cam dau (rhwng 5 i 28 diwrnod fel arfer): Cyfarfod Trafod Achos
- Cam tri (fel arfer o fewn 12 mis unwaith y bydd canlyniadau post mortem terfynol ar gael): Cyfarfod Adolygu Achos.

Nid yw teuluoedd yn gallu mynychu'r cyfarfodydd ond bydd eich gweithiwr allweddol yn rhannu gwybodaeth rhyngoch chi a'r cyfarfodydd PRUDiC ac yn eich cyfeirio at wasanaethau cymorth ar gyfer profedigaeth.

Gallwch ddechrau cynllunio'r angladd unrhyw bryd ond dim ond ar ôl i chi gael y dystysgrif marwolaeth neu'r ffurflen briodol gan y crwner, dylech dderbyn hwn gan swyddog y crwner.

I gael cymorth ac arweiniad pellach gallwch gysylltu â'ch gweithiwr allweddol, swyddog y crwner, y gwasanaethau cymorth isod neu'r swyddfa profedigaeth yn eich ysbyty. **phw.nhs.wales/PRUDiC**